**Jack Sargeant AS/MS**
**Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol**
**Minister for Culture, Skills and Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
SeneddLJC@senedd.wales

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
SeneddEconomy@senedd.wales

20 Tachwedd 2024

Annwyl Mike a Paul

Ysgrifennaf i dynnu sylw'r Pwyllgor at Reoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Diwygio) (Estyn i'r Swistir a Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau Cymru 2024") a osodwyd gerbron y Senedd heddiw.

Mae Rheoliadau Cymru 2024 yn cael eu gwneud gan ddefnyddio'r pwerau yn Neddf Cymwysterau Proffesiynol 2022.

Ym mis Mehefin 2023, llofnododd y DU a'r Swistir Gytundeb y DU a'r Swistir ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol ("Cytundeb y Swistir") ynghylch y trefniadau ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol rhwng y ddwy wlad. Rhaid i Gytundeb y Swistir gael ei weithredu gan y ddau barti erbyn 1 Ionawr 2025.

Mae Rheoliadau Cymru 2024 yn diwygio Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023 (O.S. 2023/1294 (Cy. 230)) ("Rheoliadau Cymru 2023") i estyn cymhwyso Rheoliadau Cymru 2023 i Gydffederasiwn y Swistir a diwygio Rheoliadau Cymru 2023 at ddiben gweithredu Cytundeb y Swistir mewn perthynas â'r rheoleiddwyr Cymreig, ac mewn cysylltiad â hynny.

Mae Rheoliadau Cymru 2024 hefyd yn cynnwys darpariaethau i gywiro mân wallau yn Rheoliadau Cymru 2023.

Atodaf gopi o'r Memorandwm Esboniadol sy'n rhoi rhagor o fanylion ynghylch Rheoliadau Cymru 2024.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Jack.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Jack.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir

**Jack Sargeant AS/MS**
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol
Minister for Culture, Skills and Social Partnership

**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Diwygio) (Estyn i'r Swistir a Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan swyddogion y Gyfarwyddiaeth Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Diwygio) (Estyn i'r Swistir a Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2024. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Jack Sargeant AS**
**Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol**

**20 Tachwedd 2024**

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Diwygio) (Estyn i’r Swistir a Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau Cymru 2024") yn gweithredu darpariaethau sy'n ymwneud â chydnabod cymwysterau proffesiynol sydd wedi eu cynnwys yn y Cytundeb rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Chydffederasiwn y Swistir ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol (“Cytundeb y Swistir”) mewn perthynas â materion sydd wedi eu datganoli i Gymru.

Mae Rheoliadau Cymru 2024 yn diwygio Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023 (O.S. 2023/1294 (Cy. 230)) ("Rheoliadau Cymru 2023") i estyn cymhwyso Rheoliadau Cymru 2023 i Gydffederasiwn y Swistir a diwygio Rheoliadau Cymru 2023 at ddiben gweithredu Cytundeb y Swistir mewn perthynas â’r rheoleiddwyr Cymreig, ac mewn cysylltiad â hynny. Mae Rheoliadau Cymru 2024 hefyd yn cynnwys darpariaethau i gywiro mân wallau yn Rheoliadau Cymru 2023.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

O dan delerau Cytundeb y Swistir, rhaid i bob parti gael mesurau ar waith i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'i delerau erbyn 1 Ionawr 2025. Felly, bydd Rheoliadau Cymru 2024 yn dod i rym ar 1 Ionawr 2025 i sicrhau bod gan y rheoleiddwyr Cymreig ddyletswydd statudol glir i gydymffurfio â gofynion Cytundeb y Swistir o'r dyddiad hwnnw.

Mae Rheoliadau Cymru 2024 hefyd yn rhoi eglurder cyfreithiol i'r rheoleiddwyr Cymreig a'r gweithwyr proffesiynol cysylltiedig drwy sicrhau bod deddfwriaeth sectorol Cymru yn adlewyrchu'r trefniadau newydd ar gyfer cydnabod cymwysterau’r Swistir yn brydlon.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae paragraff 10 (materion tramor etc.) o Atodlen 7A (materion a gedwir yn ôl) i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu, er bod cysylltiadau rhyngwladol a rheoleiddio masnach ryngwladol yn faterion a gedwir yn ôl, nad yw cadw at rwymedigaethau rhyngwladol a'u gweithredu yn fater a gedwir yn ôl. Felly, mae gan Weinidogion Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol mewn materion sydd wedi eu datganoli.

Daeth Deddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 â'r system dros dro i ben ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol a ddeilliodd o aelodaeth y DU o'r UE a

chreodd fframwaith newydd ar gyfer cydnabod cymwysterau a phrofiad proffesiynol tramor yn y DU, neu ran o'r DU.

Mae adran 3(1) o Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 yn cynnwys pwerau cydredol, ac o dan y pwerau hynny caiff yr awdurdod cenedlaethol priodol, drwy reoliadau, wneud unrhyw ddarpariaeth y maent yn ystyried ei bod yn briodol at ddiben gweithredu unrhyw gytundeb cydnabod rhyngwladol y mae'r Deyrnas Unedig yn barti iddo, neu mewn cysylltiad â gweithredu unrhyw gytundeb o'r fath. Diffinnir "awdurdod cenedlaethol priodol" naill ai fel yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arglwydd Ganghellor, neu Weinidogion Cymru mewn perthynas â rheoliadau o dan y Ddeddf sy'n cynnwys dim ond darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru pe bai wedi ei chynnwys mewn Deddf gan y Senedd. Gwrthwynebodd Gweinidogion Cymru gynnwys y pwerau cydredol yn Neddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 gan fod y rhain yn galluogi Llywodraeth y DU i ddeddfu mewn meysydd pwnc sydd wedi eu datganoli i Gymru heb orfod sicrhau cydsyniad y Senedd i wneud hynny.

Ym mis Tachwedd 2023 defnyddiodd Llywodraeth y DU y pwerau cydredol o dan Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 i osod Rheoliadau drafft Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Diwygio) 2023 ("Rheoliadau 2023 y DU"). Gwnaeth Rheoliadau 2023 y DU ddarpariaeth i weithredu Pennod 12 o Gytundeb Masnach Rydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) a'r Gymdeithas Fasnach Rydd Ewropeaidd (EFTA) ("Cytundeb Masnach Rydd yr AEE EFTA"), a sefydlodd fframwaith ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol a enillwyd yn Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein.

Roedd Rheoliadau drafft 2023 y DU yn estyn i Gymru a Lloegr (yn ogystal â'r Alban a Gogledd Iwerddon), nid yn unig ar gyfer proffesiynau y mae rheoleiddio yn fater sydd wedi ei gadw yn ôl i Lywodraeth y DU, ond hefyd ar gyfer proffesiynau y mae rheoleiddio yn fater sydd wedi ei ddatganoli i Weinidogion Cymru. Gwrthwynebodd Gweinidogion Cymru y dull hwn o weithredu, ac felly gwnaethant arfer eu pwerau o dan Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 i ddeddfu mewn perthynas â phroffesiynau y mae eu rheoleiddio yn fater sydd wedi ei ddatganoli, a gwneud Rheoliadau Cymru 2023.

Mae Rheoliadau Cymru 2023 wedi datgymhwyso Rheoliadau 2023 y DU i'r graddau y maent yn berthnasol i'r rheoleiddwyr Cymreig (fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Cymru 2023), ac yn gwneud darpariaeth ar wahân i weithredu Cytundeb Masnach Rydd yr AEE EFTA yng Nghymru. Yn ogystal, mae Rheoliadau Cymru 2023 wedi gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sectorol bresennol Cymru i adlewyrchu'r hyn y bydd Cytundeb Masnach Rydd yr AEE EFTA yn ei roi ar waith yng Nghymru.

Mae angen diwygio Rheoliadau Cymru 2023 erbyn hyn, fel bod eu darpariaethau yn berthnasol hefyd i'r Swistir yn ôl yr hyn sy'n ofynnol o dan delerau Cytundeb y Swistir. O ganlyniad, bydd Rheoliadau Cymru 2023 yn berthnasol i geisiadau gan weithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau a

roddwyd yn y Swistir yn ogystal â'r rhai sydd â chymwysterau o Norwy, Liechtenstein a Gwlad yr Iâ.

Gwneir Rheoliadau Cymru 2024 o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol fel y darperir ar ei chyfer gan adran 18 o Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol 2022.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Ym mis Mehefin 2023, llofnododd Llywodraeth y DU a Chydffederasiwn y Swistir Gytundeb y Swistir gan ddarparu ar gyfer parhau i gydnabod cymwysterau proffesiynol rhwng y ddwy wlad[1].

Bydd Rheoliadau Cymru 2024 yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddwyr Cymreig weithredu llwybrau hygyrch i gydnabyddiaeth, fel y rhagnodir o dan Gytundeb y Swistir, i weithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau a gafwyd yn y Swistir ymarfer eu proffesiwn yng Nghymru. Mae trefniadau cydnabyddiaeth tebyg eisoes ar waith ar gyfer gweithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau o Norwy, Gwlad yr Iâ a Lichtenstein, yn unol â Chytundeb Masnach Rydd yr AEE EFTA.

Yn unol â Chytundeb Masnach Rydd yr AEE EFTA, mae Cytundeb y Swistir yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddwyr Cymreig gydnabod cymwysterau proffesiynol ymgeiswyr o Gydffederasiwn y Swistir, pan fo'r cymwysterau hynny'n debyg i'r cymwysterau sydd eu hangen i gael mynediad i'r un proffesiwn, ac i'w ddilyn, yng Nghymru neu unrhyw ran arall o’r DU. Mae Cytundeb y Swistir hefyd yn nodi'r ffordd y mae'n rhaid ymdrin â cheisiadau am gydnabod cymwysterau ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i’r rheoleiddwyr Cymreig gynnig cyfnodau ymaddasu a phrofion gallu pan fo angen.

Nid yw Rheoliadau Cymru 2024 yn berthnasol ond i'r rheoleiddwyr Cymreig sy'n gyfrifol am reoleiddio yng Nghymru y proffesiynau a restrir yn Atodlen 1 i Reoliadau Cymru 2023. Y rheoleiddwyr yw Gweinidogion Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg, Gofal Cymdeithasol Cymru, yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

## 5. Ymgynghori

Mae adran 15 o Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cenedlaethol priodol, wrth wneud rheoliadau o dan adran 3 o'r Ddeddf, ymgynghori â rheoleiddwyr y mae'r rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt neu ei bod fel arall yn briodol ymgynghori â hwy. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad wedi ei dargedu ar Reoliadau drafft Cymru 2024 gyda phob un o'r rheoleiddwyr Cymreig ym mis Medi 2024.

[1] Ar 25 Chwefror 2019, cytunwyd ar y Cytundeb rhwng Cydffederasiwn y Swistir a Theyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon ar Hawliau Dinasyddion ("y CRA"). Mae'r CRA yn cynnwys darpariaethau ar y gydnabyddiaeth gilyddol o gymwysterau proffesiynol sy'n berthnasol i wladolion y DU a'r Swistir. Fodd bynnag, mae'r trefniadau hyn yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024.

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, nid ystyriwyd bod angen gwneud unrhyw welliannau i Reoliadau drafft Cymru 2024.

Gan fod yr ymgynghoriad wedi ei dargedu at y grŵp penodol o reoleiddwyr Cymreig, ni chyhoeddwyd y dogfennau ymgynghori, ond mae copi o'r ymgynghoriad a chrynodeb o'r ymatebion ar gael ar gais, drwy e-bostio PolisiCyflogadwyeddASgiliau@llyw.cymru.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ystyriwyd dau opsiwn yn yr asesiad hwn.

Opsiwn 1. Gwneud dim

Mae Cytundeb y Swistir yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddwyr yng Nghymru a gweddill y DU gael prosesau ar waith yn y DU erbyn 1 Ionawr 2025 i gydnabod cymwysterau neu brofiad a gafwyd yn y Swistir pe bai gweithiwr proffesiynol yn gwneud cais i ymarfer proffesiwn a reoleiddir gan y gyfraith. Nid yw Cytundeb y Swistir yn nodi bod yn rhaid gweithredu'r prosesau hynny trwy ddeddfwriaeth.

O dan yr opsiwn hwn, ni wneir unrhyw ddeddfwriaeth i osod y rheoleiddwyr Cymreig o dan ddyletswydd statudol glir i gydnabod cymwysterau proffesiynol fel sy'n ofynnol o dan Gytundeb y Swistir. Yn hytrach, byddai gan bob rheoleiddiwr Cymreig gyfrifoldeb unigol dros sicrhau bod ganddynt fesurau priodol ar waith i fodloni gofynion Cytundeb y Swistir.

Y perygl yw y byddai hyn yn arwain at anghysondeb ymhlith y rheoleiddwyr Cymreig o ran y dull gweithredu. Gallai hefyd fod dryswch ymhlith ymgeiswyr proffesiynol a rheoleiddwyr, yn enwedig y rhai sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr, pe bai dull statudol yn cael ei weithredu yn Lloegr a dull anstatudol yng Nghymru. Gall methiant i ddarparu dyletswydd statudol glir i'r rheoleiddwyr Cymreig ei dilyn mewn perthynas â chydnabod cymwysterau proffesiynol hefyd gynyddu'r risg y bydd rheoleiddiwr Cymreig yn gweithredu'n groes yn anfwriadol i delerau Cytundeb y Swistir. Hefyd, pe bai Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â deddfu mewn perthynas â Chymru, gall Llywodraeth y DU benderfynu defnyddio'r pwerau cydredol yn Neddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 i weithredu Cytundeb y Swistir mewn meysydd sydd wedi eu datganoli.

Opsiwn 2. Gosod deddfwriaeth Gymreig i sicrhau cydymffurfiaeth glir a chyson â thelerau Cytundeb y Swistir mewn meysydd datganoledig. Dyma’r opsiwn a ffefrir.

Mae Rheoliadau Cymru 2024 yn sicrhau bod y rheoleiddwyr Cymreig yn deall bod ganddynt ddyletswydd statudol i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan Gytundeb y Swistir. Mae Rheoliadau Cymru 2024 yn darparu cysondeb ac eglurder i reoleiddwyr sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr, ac i weithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau neu brofiad a gafwyd yn y Swistir pan

fyddant yn gwneud cais i ymarfer proffesiynau rheoleiddiedig mewn gwahanol rannau o'r DU.

Costau a manteision

Bydd dyletswydd ar y rheoleiddwyr Cymreig i gydymffurfio â thelerau Cytundeb y Swistir o 1 Ionawr 2025, hyd yn oed os na wneir deddfwriaeth i weithredu'r gofynion hyn yn benodol i gyfraith ddomestig.

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol i fusnesau, elusennau na chyrff gwirfoddol o ganlyniad i'r mesurau hyn o dan opsiwn 1 nac opsiwn 2. Byddai'r costau a ysgwyddir yn gostau gweinyddol sy'n disgyn ar y rheoleiddwyr Cymreig, y gall fod angen iddynt addasu eu prosesau cydnabod presennol i fodloni gofynion Cytundeb y Swistir. Fodd bynnag, gan ei bod eisoes yn ofynnol i'r rheoleiddwyr Cymreig gael llwybrau ar waith i gydnabod cymwysterau proffesiynol a ddyfarnwyd yn Norwy, Gwlad yr Iâ a Lichtenstein, rhagwelir y bydd estyn y prosesau hynny ar gyfer y rheini sydd â chymwysterau a gafwyd yn y Swistir yn mynd i gostau ychwanegol cyfyngedig.

Gallai fod cost weinyddol gyfyngedig i'r rheoleiddwyr Cymreig sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â'r gofynion yn Nghytundeb y Swistir i gynnig mesurau digolledu i ymgeisydd sydd â chymwysterau proffesiynol a gafwyd yn y Swistir. A bydd hynny'n berthnasol pan fo gwahaniaeth sylweddol rhwng cymwysterau proffesiynol yr ymgeisydd a'r wybodaeth neu'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen i ymarfer proffesiwn a reoleiddir yng Nghymru, neu mae proffesiwn a reoleiddir yng Nghymru yn cynnwys un neu fwy o weithgareddau proffesiynol sy'n ymdrin â materion sy'n sylweddol wahanol i'r rhai a gwmpesir gan gymwysterau proffesiynol yr ymgeisydd. Gall y rheoleiddiwr gynnig prawf gallu neu ei gwneud yn ofynnol i'r gweithiwr proffesiynol gwblhau cyfnod ymaddasu.

Yr amcangyfrif gorau o'r gost bosibl hon yw tua £500 yr ymgeisydd. Fodd bynnag, rhwng 2015 a 2024 ni dderbyniodd y rheoleiddwyr Cymreig unrhyw geisiadau am gydnabod cymwysterau proffesiynol a gafwyd yn y Swistir ac nid ydynt yn disgwyl y bydd cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr sy'n ceisio ymuno â'r proffesiynau y maent yn gyfrifol amdanynt o ganlyniad i Reoliadau Cymru 2024. Felly, yn y pen draw efallai na fydd y rheoleiddwyr Cymreig byth yn ysgwyddo'r costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gofyniad i gynnig mesurau digolledu pan fo angen.

Mae perygl anuniongyrchol y bydd costau'n cael eu codi gan y sector cyhoeddus o dan opsiwn 1 pe bai unrhyw reoleiddiwr Cymreig wedi methu â chyflawni ei ddyletswyddau o dan Gytundeb y Swistir, a dygwyd achos am dorri cyfraith Ewropeaidd yn erbyn y DU. Ystyrir bod y risg o achosion o'r fath yn

cael ei leihau os oes gan y rheoleiddwyr Cymreig ddarpariaethau statudol clir i'w dilyn, fel sy'n digwydd o dan opsiwn 2.